

Cyngor Sir Penfro



**GWASANAETH
PRYDAU YSGOL**

Ar ôl llanw'r ymwadiad byddwchystal
â'i anfon at:

Nia Davies
Rheolwr Maeth A Systemau
Yr Adran Arlwyo
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
SA61 1TP

Ffôn: 01437775250

E-bost :
nia.davies@pembrokeshire.gov.uk

DARPARU
DIETAU WEDI'U
RHAGNODI'N
FEDDYGOL

**CYNGOR I
RIENI A
GWARCHEIDWAID**

Diet wedi'i ragnodi'n feddygol yw diet sydd wedi cael ei ragnodi gan feddyg h.y. meddyg teulu neu feddyg ysbyty/dietegydd.

C All fy mhlentyn i gael cinio ysgol?

Gall, mae cinio ysgol yn gallu cael ei ddarparu i blant y mae arnynt angen dietau sydd wedi'u rhagnodi'n feddygol

C Beth wyf i'n gorfod ei wneud er mwyn i'm plentyn gael cinio ysgol?

Dim ond ar ôl i'r ffurflen hon gael ei llanw a'i hanfon at y Rheolwr Maeth A Systemau (cyfeiriad drosodd) y bydd cinio ysgol yn cael ei ddarparu i'ch plentyn

Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r Rheolwr Maeth A Systemau dderbyn y ffurflen?

C Ar ôl derbyn y ffurflen fe roddir gwybod i'r ysgol a'r prif gogydd am anghenion eich plentyn - sef bod arno/arni angen diet a ragnodwyd yn feddygol. Wedi hynny bydd eich plentyn yn cael bwydlen briodol a fydd yn cael ei diweddarau bob mis Mai a mis Tachwedd.

C Oes rhaid i mi wneud unrhyw beth arall?

Nac oes, fodd bynnag os nad oes angen y 'diet arbennig' mwyach, cofiwch gysylltu â'r Rheolwr Maeth A Systemau. (Mae'r manylion cysylltu i'w gweld drosodd)

C Mae fy mhlentyn yn alergaidd i gnau. A all ef/hi gael cinio ysgol?

Gall, ond bydd rhaid ichi llanw ffurflen ymwadiad. Ffoniwch ein Rheolwr Maeth A Systemau, er mwyn cael ffurflen (Mae'r manylion cysylltu i'w gweld drosodd)

C Mae fy mhlentyn yn llysfwytäwr/figan. A all ef/hi gael cinio ysgol?

Gall, byddwch cystal â thicio'r blwch a llanw **Adran A yn unig**, cyn anfon y ffurflen i'r cyfeiriad drosodd.

Llysfwytäwr Figan

C Mae angen diet arbennig ar fy mhlentyn oherwydd ei grefydd. A all ef/hi gael cinio ysgol?

Gall, byddwch cystal â dweud pa grefydd ydyw a pha ddiet sydd ei angen. Llanwch **Adran A** yn unig ac anfon y ffurflen i'r cyfeiriad drosodd.

Crefydd:

Diet sydd ei angen:

Llanwch y dudalen hon o'r ffurflen, os oes arnoch angen diet a ragnodwyd yn feddygol. Cofiwch drefnu i Feddyg neu Ddietegydd cofrestredig llanw **Adran C**. Yna anfonwch y ffurflen wedi'i llanw, i'r cyfeiriad drosodd.

Adran A

I'W LLANW GAN Y RHIANT/GWARCHIEDWAD

Manylion eich plentyn:

Enw:

Dyddiad Geni:

Cyfeiriad:

Ysgol:

Adran B

DIET A RAGNODWYD YN FEDDYGOL (TICIWCH)

Diabetig

Di-wyau

Di-glwten

Di-wenith

Di-laeth

PKU

Arall - rhowch beth:

Adran C

I'W LLANW GAN FEDDYG NEU DDIETEGYDD COFRESTREDIG

Rwyf yn cadarnhau bod

yn cadw at ddiet

a bydd arno/ arni angen cinio ysgol wedi'i baratoi'n briodol.

Enw

Llofnod

Cyfeiriad y Feddygfa/Ysbyty

